**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

**BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET**

**16 TACHWEDD 2023**

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: J.Hale ac S.Harris

**Swyddogion yn Bresennol:**

A.Thomas, C.Howard, K.Warren, J.Hodges, N.Jones a P.Chivers

**Gwahoddedig Craffu:**

Y Cynghorydd C Galsworthy

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Harris yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bydd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023 yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor er mwyn eu cymeradwyo.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 23/24

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 6. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 7. CANIATÂD I DDARPARU GWYBODAETH AR Y RHAGLEN TRAWSNEWID - ACHOS BUSNES AMLINELLOL Y CYNGHRAIR

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, cymeradwyodd yr Aelodau egwyddorion, nodau ac amcanion y Rhaglen Drawsnewid - Achos Busnes Amlinellol y Gynghrair, a darparu cefnogaeth ar gyfer y cynllunio parhaus, i alluogi caffael gwasanaeth defnyddio sylweddau integredig newydd yn y dyfodol, gan ddefnyddio contract Cynghrair, a fydd yn disodli'r ystod bresennol o drefniadau contractio ar gyfer ymyriadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Bydd cytuno i barhau â'r ‘Rhaglen Trawsnewid - Achos Busnes Amlinellol y Gynghrair' yn galluogi ar gyfer parhau i ddatblygu'r rhaglen.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 20 Tachwedd 2023.

## 8. CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID DRAFFT CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2023-2024

**Penderfynwyd:**

Gofynnir i'r Aelodau gefnogi Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Drafft Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2023-2024 i'w argymell i'r Cyngor er mwyn ei gymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot (Ymyrryd yn Gynnar ac Atal), ar ran Cyngor Castell-nedd Port Talbot i ymgymryd â'i ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 20 Tachwedd 2023.

## 9. GRWP GWELLA ARFER

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 10. UN PWYNT CYSWLLT:  GOFYNION PARHAUS A'N GALLU I'W BODLONI

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 11. PLANT A PHOBL IFANC, Y GWASANAETHAU OEDOLION A THAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL - ADRODDIAD PERFFORMIAD YR 2IL CHWARTER (EBRILL 2023 - MEDI 2023)

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 12. EITEMAU BRYS

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 13. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

### Penderfyniad

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

## 14. UNIGOLYN CYFRIFOL YN HILLSIDE

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod Aelodau:

Yn cytuno i atal Rheol 11 o Reolau Gweithdrefnol Contractau'r cyngor

Yn rhoi caniatâd i'r Pennaeth Tai a Chymunedau ymrwymo i gontract newydd gyda The Wallich ar gyfer darparu Gwasanaeth Ataliaeth a Lles am gyfnod o 12 mis, gydag opsiwn i ymestyn am 6 mis pellach. Mae'r cyfnod hwn yn amodol ar allu'r cyngor i derfynu'r gwasanaeth yn gynnar drwy roi tri mis o rybudd i The Wallich.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Fel bod contract rhwymol-gyfreithiol sy'n galluogi ar gyfer parhau â'r gwasanaethau hanfodol hyn, wrth i swyddogion gynnal adolygiad o wasanaethau digartrefedd a datblygu model gwasanaeth newydd sy'n galluogi ar gyfer darparu yn erbyn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Llun, 20 Tachwedd 2023.

## 15. ADRODDIAD RHEOLWR HILLSIDE

**Penderfynwyd:**

1. Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiadau sgrinio effaith integredig, fod awdurdod yn cael ei roi Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i fwrw ymlaen ag ailgynllunio gwasanaethau Hillside, fel y nodir yn atodiad 1 i'r adroddiad a gylchredwyd (Adroddiad Ailgynllunio Gwasanaeth Hillside).

2. Bod yr awdurdod yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r gweithlu, gydag adroddiad gwybodaeth i'r Pwyllgor Personél yn manylu ar y newidiadau.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig**

Mae angen i Hillside ymateb i anghenion a chanlyniadau newidiol y plant ag anghenion cymhleth a leolir yn Hillside - bydd y cynllun ail-lunio arfaethedig yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn Hillside yn addasu yn y ffordd iawn i gefnogi'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, a ddaeth i ben am 9am ddydd Llun, 20 Tachwedd 2023.

## 16. TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER Y GWASANAETH ATALIAETH A LLES

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 17. AILDDYLUNIO GWASANAETHAU YN HILLSIDE

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 18. LLETY Â CHYMORTH UWCH I BOBL IFANC

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**